Crëwyd y cynnwys hwn gan y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar cyn uno â Beth sy'n Gweithio i Ofal Cymdeithasol Plant i greu Foundations.

Mae'r cynnwys yn cynnwys logos a brandio'r hen sefydliad.

Foundations
What Works Centre for Children & Families

foundations.org.uk

EARLY INTERVENTION FOUNDATION

CYMRU

Crynodeb o fatrics aeddfedrwydd yr EIF

Mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar

Pecyn hunanasesu i gefnogi dull system gyfan o wella canlyniadau i blant

Cyflwyniad

Mae blynyddoedd cynnar bywyd, gan gynnwys beichiogrwydd a genedigaeth, yn gyfnod arwyddocaol o dwf unigolyn. Maen nhw'n hollbwysig wrth bennu datblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol, ymddygiadol a gwybyddol mewn ffyrdd sy'n cael effaith gydol oes ar iechyd a lles. Gall ymyrryd yn gynnar leihau ffactorau risg a chynyddu ffactorau amddiffyn mewn bywyd plentyn. Golyga hyn fod mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar yn arbennig o bwysig er mwyn i ymyrraeth gynnar atal neu leihau effeithiau negyddol y mae plentyn neu deulu yn cael profiad ohonynt.

Mae gwasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar yn hanfodol i ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar blant a theuluoedd ac i nodi'r rhai hynny y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt gan wasanaethau lleol eraill. Wrth i awdurdodau lleol, y GIG a phartneriaid lleol eraill weithio ar y ffordd orau o gynnal a datblygu gwasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar, mae galw am dystiolaeth i lywio penderfyniadau lleol, ac am gymorth i gynllunio system leol effeithiol i blant a'u teuluoedd.

Mae'r disgrifyddion a'r lefelau cynnydd yn y matrics hwn yn gyson â fersiynau blaenorol, gan gynnwys y matrics lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar a gyhoeddwyd yn 2018. Fodd bynnag, mae'r newid i fod yn benodol ynglŷn â mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar yn adlewyrchu'r dystiolaeth ar ddatblygiad y plentyn a phwysigrwydd gwella integreiddio ar lefel leol rhwng cymorth amenedigol a bod yn barod i'r ysgol.

Defnyddio'r matrics

Mae'r matrics yn becyn hunanasesu i helpu ardaloedd lleol i fesur cynnydd i greu system leol i helpu plant yn eu blynyddoedd cynnar i ffynnu, ac i lywio gwaith cynllunio i wneud y system leol hon yn fwy effeithiol. Gellir ei ddefnyddio hefyd i bennu llinell sylfaen ac olrhain cynnydd dros amser.

Gellir cwblhau'r matrics yn unigol neu ei ddefnyddio fel strwythur ar gyfer trafodaeth grŵp, neu'r ddau. Mae cyfranogion yn sgorio'r ardal leol ar 10 elfen allweddol, gan nodi tystiolaeth ategol ar gyfer eu sgôr, ac yn ystyried rhwystrau i newid a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu.

Mae'r matrics yn gweithio orau pan fo amrywiaeth o bobl â gwahanol brofiadau a safbwyntiau yn cymryd rhan, a phan allant glywed a chymedroli cyfraniadau ei gilydd i ddatblygu darlun llawnach.

- **Trafodaeth grŵp:** gellir defnyddio'r matrics fel sail i drafodaeth rhanddeiliaid strwythuredig neu weithdy, gan rannu gwahanol safbwyntiau a llunio consensws ynghylch cynnydd a blaenoriaethau.
- **Asesiad unigol:** gellir defnyddio'r matrics hefyd i'w gwblhau gan randdeiliaid allweddol yn unigol. Mae'r dull hwn yn rhoi un safbwynt yn unig ar y system leol. Fodd bynnag, gall helpu rhanddeiliaid i baratoi ar gyfer trafodaeth pan fyddant yn dod at ei gilydd.

DIMENSIWN	ELFEN ALLWEDDOL
CYNLLUNIO	1 Strategaeth
	2 Adnoddau
	3 Cynllunio'r gweithlu
ARWAIN	4 Partneriaeth
	5 Arweinyddiaeth
	6 Perchnogaeth y gymuned
CYFLAWNI	7 Gwasanaethau ac ymyriadau
	8 Rhannu gwybodaeth
GWERTHUSO	9 Canlyniadau
	10 Defnyddio a chynhyrchu tystiolaeth

Dod o hyd i'r matrics aeddfedrwydd sy'n iawn i chi

Mae fersiynau cryno a llawn o lyfr gwaith matrics aeddfedrwydd mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar ar gael ar wefan EIF gan gynnwys fersiynau ar wahân o bob un i'w defnyddio yng Nghymru a Lloegr. I gael gwybod mwy ac i lawrlwytho'r pecyn sy'n addas i chi, ewch i EIF.org.uk/ey-mm

Y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar (Early Intervention Foundation)
10 Salamanca Place, Llundain SE1 7HB | G: www.EIF.org.uk | E: info@eif.org.uk | T: @TheEIFoundation | Ff : +44 (0)20 3542 2481 Cyhoeddwyd gyntaf ym mis Tachwedd 2020. © 2020

CYNLLUNIO

	1 Strategaeth		2 Adnoddau		3 Cynllunio'r gweithlu	
Lefel sylfaenol	Cydnabyddir bod cynllunio ar gyfer canlyniadau mamolaeth a phlentyndod cynnar da fel system gyfan yn bwysig ond nad yw ar waith eto. Mae dadansoddiad lleol o anghenion y boblogaeth yn cynnwys rhywfaint o ddata cyfyngedig ar famolaeth a'r blynyddoedd cynnar.	✓	Mae partneriaid yn cydnabod yr angen i drin gwasanaethau ac asedau mamolaeth a blynyddoedd cynnar lleol yn rhan o system gydgysylltiedig, ond nid ydynt wedi mapio'r adnoddau sy'n cyfansoddi'r system hon. Prin yw'r buddsoddiad y tu hwnt i ofynion statudol.	✓	Mae cynllunio'r gweithlu yn dueddol o fod wedi'i gyfyngu neu wedi'i ganolbwyntio ar ddisgyblaethau unigol, ond ceir cytundeb i gydweithio ar faterion gweithlu.	✓
Cynnydd cynnar	Mae strategaeth amlasiantaeth leol ar gyfer mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar wrthi'n cael ei datblygu. Mae rhai partneriaid yn rhannu data lefel poblogaeth am anghenion a chanlyniadau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar, ac yn defnyddio'r rhain i nodi grwpiau agored i niwed, er enghraifft y rhai ag anghenion iaith a chyfathrebu.		Mae'r adnoddau a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar allweddol wedi'u nodi ac mae dadansoddiad o flaenoriaethau ar y gweill. Mae gofynion lleol ar gyfer gwasanaethau craidd fel bydwreigiaeth, ymweliadau iechyd, gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith, rhaglenni rhianta, cymorth i deuluoedd a gwasanaethau ADY yn cael eu halinio.		Mae anghenion gweithlu amlasiantaeth yn cael eu mapio ar draws mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar. Mae rhai staff mewn swyddi allweddol ar draws gwasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar yn cymryd rhan yn y gwaith o ddarparu hyfforddiant i'r gweithlu ehangach.	
Cynnydd sylweddol	Mae strategaeth amlasiantaeth yn darparu'r pwyslais ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar. Mae'r strategaeth yn cymryd tystiolaeth ac anghenion y boblogaeth i ystyriaeth. Mae'n cynnwys datblygiad plant o'r cyfnod cynenedigol ymlaen, ac yn cwmpasu cymorth cyffredinol, wedi'i dargedu ac arbenigol i deuluoedd. Mae'r strategaeth yn cael ei darparu gan gynllun gweithredu sy'n ymateb i flaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae strategaethau lleol eraill yn ymwneud â theuluoedd a chymunedau yn cyfeirio at y strategaeth mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar. Mae partneriaid yn rhannu data mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar ar gyfer asesiad amlasiantaeth o anghenion y boblogaeth. Mae data a gwybodaeth yn dylanwadu ar benderfyniadau a blaenoriaethu yn y strategaeth mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar. Mae'r asesiad o anghenion yn cynnwys naratif eglur o ganlyniadau i blant ar bwyntiau allweddol yn eu bywydau, fel genedigaeth, dechrau dysgu (2–3 oed) a dechrau'r ysgol, ac ar gyfer grwpiau poblogaeth agored i niwed.		Mae buddsoddi mewn gwasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar yn flaenoriaeth leol, ac mae partneriaid yn cyfuno/alinio cyllid i gefnogi darpariaeth y strategaeth, yn seiliedig ar fapio a dadansoddi adnoddau presennol. Mae gwaith mapio a dadansoddi adnoddau ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar yn ddatblygedig ac yn dechrau hysbysu dyraniad adnoddau yn rhan o'r strategaeth. Defnyddir tystiolaeth i lywio penderfyniadau ariannu – defnyddir adnoddau i gynnal dulliau a dreialwyd yn llwyddiannus gyda chyllid byrdymor.		Ceir cynllun ar gyfer datblygu capasiti a gallu'r gweithlu mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar. Mae anghenion y gweithlu yn cael eu dadansoddi a'u deall. Rhoddir sylw i fylchau capasiti trwy hyfforddiant staff, ail-ddylunio gwasanaethau neu recriwtio, gan gymryd y system mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar ehangach i ystyriaeth yn hytrach na chanolbwyntio ar asiantaethau unigol yn unig. Mae ymarferwyr ar draws y gweithlu yn manteisio ar hyfforddiant mewn sgiliau a phrosesau cyffredin. Mae dangosyddion o berfformiad, ymwybyddiaeth a bodlonrwydd staff yn gadarnhaol, yn cael eu casglu fel mater o drefn, ac yn hysbysu datblygiad y gweithlu.	
Aeddfed	Mae'r strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar wedi cael ei hadolygu a'i hadnewyddu, gan ymateb i ddata a thystiolaeth leol ynghylch lle mae angen gwneud gwelliannau. Mae'r strategaeth hon yn cael ei darparu gan gynllun gweithredu sy'n cael ei fonitro ar lefel uwch. Mae data mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar amlasiantaeth cadarn a chyfredol yn cael eu dadansoddi fel mater o drefn, gan gynnwys anghenion y boblogaeth a defnydd o wasanaethau, yn seiliedig ar ddata ar draws y bartneriaeth gyfan. Defnyddir y dadansoddiad fel mater o drefn i nodi grwpiau targed, i ddylunio gwasanaethau, i gytuno ar flaenoriaethau, i ragweld tueddiadau ac i gynllunio strategaeth, ac mae'n dylanwadu ar strategaethau teuluoedd a chymunedau.		Ceir tystiolaeth o newidiadau sylweddol i fuddsoddiad mewn atal ac ymyrraeth gynnar mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar. Mae mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar yn flaenoriaeth allweddol yn y broses pennu cyllidebau leol. Mae'r holl benderfyniadau am ariannu neu ail-ddylunio gwasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar yn cymryd cryfder y dystiolaeth i ystyriaeth.		Ceir dealltwriaeth eang o amrywiaeth, capasiti, sgiliau a gwybodaeth y gweithlu sydd eu hangen i gael effaith ar ganlyniadau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar. Ceir cynnig hyfforddiant a goruchwyliaeth mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar a gytunwyd o ansawdd uchel sy'n cynorthwyo'r gweithlu i ddefnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf yn eu harferion. Mae gan sefydliadau ddiwylliant dysgu, ac mae adborth yn hysbysu hyfforddiant ac arferion ar draws asiantaethau yn y dyfodol.	

ARWAIN

	4 Partneriaeth		5 Arweinyddiaeth		6 Perchnogaeth gymunedol	
Lefel sylfaenol	Ceir rhywfaint o drafodaeth am ddull mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar cydgysylltiedig mewn byrddau partneriaeth ar gyfer plant neu iechyd a llesiant, ac ymrwymiad i ddull o'r fath, ond dim strwythur llywodraethu i gyflawni nodau.	☑	Mae dull mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar mwy cydgysylltiedig yn cael ei hyrwyddo gan rai eiriolwyr lleol.	☑	Ymgynghori â phlant a theuluoedd ar strategaeth a datblygiad gwasanaeth, ond nid o reidrwydd yn benodol i famolaeth a'r blynyddoedd cynnar. Ceir rhai enghreifftiau ad-hoc o gymorth dan arweiniad cymheiriaid a'r gymuned ym maes mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar.	☑
Cynnydd cynnar	Mae gan grŵp partneriaeth a nodwyd gyfrifoldeb arweiniol am gyflawni nodau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar. Mae partneriaid yn fodlon rhannu cyfrifoldeb, dylunio atebion a gweithredu.	☐	Mae rhai arweinwyr uwch yn rhoi neges gyson am bwysigrwydd dull mwy cydgysylltiedig o ran nodau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar.	☐	Mae safbwyntiau teuluoedd yn hysbysu strategaeth trwy ymgynghori ffurfiol sy'n canolbwyntio ar faterion a nodau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar. Mae gwaith ar y gweill i fapio a datblygu capasiti cymunedau a sefydliadau gwirfoddol i gyfrannu at nodau mamolaeth a blynyddoedd cynnar lleol.	☐
Cynnydd sylweddol	Mae grŵp partneriaeth eang a gweithredol yn gyfrifol am strategaeth i gyflawni nodau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar, ac yn cael effaith gadarnhaol. Mae'r gwaith o lywodraethu darpariaeth y strategaeth yn eglur ac mae gan bartneriaeth gyd-ddealltwriaeth o nodau, perfformiad a'u swyddogaeth wrth weithredu. Ceir proses a gytunwyd ar gyfer mynd i'r afael â meysydd o danberfformiad. Mae gan bartneriaid berthynas waith effeithiol, yn dwyn ei gilydd i gyfrif ac yn ymddiried yn ei gilydd. Maent yn cymryd rhan mewn trafodaethau partneriaeth ac yn cyfrannu yn weithredol atynt, ac yn herio ei gilydd yn adeiladol gyda phwyslais ar effaith i blant a theuluoedd.	☐	Mae arweinwyr gweithredol a strategol yn hyrwyddo yn gyson pwysigrwydd buddsoddi mewn mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar, a manteision dull mwy cydgysylltiedig. Mae arweinwyr lleol yn annog arloesedd a chydweithrediad o ran sut y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u darparu, ochr yn ochr â phwyslais ar ddefnyddio tystiolaeth.	☐	Mae teuluoedd yn cyd-ddylunio strategaeth mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar, yn cymryd rhan mewn prosesau comisiynu a chaffael, ac yn rhan o'r strwythurau llywodraethu lle mae penderfyniadau am flaenoriaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar yn cael eu gwneud. Mae profiad taith y cwsmer yn hysbysu datblygiad y gwasanaeth a'r gweithlu. Mae cymorth cymheiriaid, datblygiad cymunedol a chyfranogiad mewn darpariaeth yn rhan o'r strategaeth mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar gyffredinol. Mae rhieni a gwirfoddolwyr cymunedol yn cyd-hwyluso hyfforddiant. Caiff teuluoedd eu cynorthwyo yn weithredol i ddatblygu'r profiad a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer swyddogaethau arweinyddiaeth gymunedol, a'u hariannu am eu hamser.	☐
Aeddfed	Mae grŵp partneriaeth dylanwadol ac effeithiol yn weithredol gyfrifol am y strategaeth mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar ac yn arwain darpariaeth ar draws asiantaethau lleol.	☐	Mae arweinwyr uwch, gan gynnwys gwleidyddion lleol, yn siarad ag 'un llais' ar bwysigrwydd gwasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar cydgysylltiedig, ac yn eiriolwyr a hyrwyddwyr o ddarpariaeth y strategaeth leol.	☐	Mae trefniadau sy'n cynnwys amrywiaeth o deuluoedd o wahanol gefndiroedd yn y gwaith o gyd-gynhyrchu a sicrhau ansawdd gwasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar yn gynhwysol, yn arferol ac wedi'u hymwreiddio. Mae cymorth cymheiriad, datblygiad cymunedol a chyfranogiad mewn darpariaeth yn rhan allweddol o'r portffolio lleol o wasanaethau a chymorth. Mae cymunedau yn darparu gwasanaethau blynyddoedd cynnar yn weithredol lle gall hyn ddiwallu angen yn effeithiol; maent yn hyfforddi ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol, a chaiff eu gwaith ei fonitro a'i werthuso ar gyfer effeithiolrwydd. Mae cymorth i deuluoedd gymryd rhan yn y gwaith gyd-gynhyrchu a strwythurau llywodraethu wedi'i ymwreiddio ac yn fater o drefn.	☐

CYFLAWNI

	7 Gwasanaethau		8 Rhannu gwybodaeth	
Lefel sylfaenol	Dyfernir bod rhai gwasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar allweddol yn tanberfformio. Ceir cydnabyddiaeth o bwysigrwydd ymyriadau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ond ni chesglir y dystiolaeth ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar lleol presennol. Mae cydgysylltiad rhwng gwahanol asiantaethau yn gyfyngedig, ond ceir diddordeb mewn datblygu llwybrau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar cyffredin fel y gall teuluoedd gael gafael ar wasanaethau cymorth pan fo'u hangen.	☑	Ceir ymrwymiad i gofnodi a rhannu data personol ac mae gwaith ar y gweill ar gytundebau rhannu gwybodaeth. Mae negeseuon i deuluoedd am feichiogrwydd a datblygiad plant cynnar, a'r cymorth sydd ar gael, yn gyfyngedig a heb eu cydgysylltu.	☑
Cynnydd cynnar	Mae ansawdd gwasanaeth rhai gwasanaethau plentyndod cynnar lleol yn dda ac yn gwella. Mae'r rhan fwyaf o fenywod beichiog a phlant yn cael eu hasesu ac yn derbyn archwiliadau gorfodol, ac mae bylchau yn hysbys ac yn cael sylw. Mae'r nifer sy'n manteisio ar wasanaethau cymunedol, gan gynnwys cymorth cynenedigol, cymorth i deuluoedd a hawliadau addysg gynnar, yn cynyddu. Mae rhai ymyriadau neu raglenni seiliedig ar dystiolaeth yn cael eu gweithredu, gan gynnwys rhaglenni rhianta a rhaglenni dwy genhedlaeth sy'n helpu rhieni i sgaffaldio dysgu plant gartref, er y gallai cyllid ar gyfer y rhain fod yn fyrdymor neu'n ansicr. Mae arferion sy'n canolbwyntio ar y teulu fel 'Tîm o amgylch y teulu' ar waith ond mae defnydd ohonynt yn anghyson. Mae sefydliadau yn cydweithio i ddatblygu llwybrau blynyddoedd cynnar cyffredin. Mae gwasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar wedi'u targedu at rai grwpiau blaenoriaeth (gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig), ond nid yn gyson ar draws sefydliadau.	☐	Mae rhywfaint o rannu gwybodaeth yn digwydd ar draws gwasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar allweddol. Mae trefniadau rhannu gwybodaeth strategol ar waith ond nid ydynt yn gwbl weithredol. Mae rhai prosesau cyffredin ar waith i alluogi rhannu data mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar personol yn electronig. Mae rhai gwasanaethau yn defnyddio negeseuon cyffredin i deuluoedd am feichiogrwydd a datblygiad plant cynnar, gan gynnwys y Cynnig Lleol.	☐
Cynnydd sylweddol	Mae ansawdd y gwasanaeth yn dda ac yn gwella i'r rhan fwyaf o wasanaethau plentyndod cynnar lleol. Mae gwasanaethau cyffredinol yn defnyddio dulliau dilys a dibynadwy i asesu cohortau cyfan o blant fel y gallant dargedu cymorth llai manwl neu nodi anghenion sydd angen asesiadau a chymorth arbenigol. Mae arbenigwyr yn darparu gwaith modelu, hyfforddi a chymorth i staff mewn lleoliadau cyffredinol. Mae nifer fawr o deuluoedd difreintiedig yn manteisio ar wasanaethau cymunedol, gan gynnwys cymorth cynenedigol, a chymorth i deuluoedd, ac mae'r rhan fwyaf o blant mewn gofal plant yn mynychu lleoliadau â dyfarniad da neu well. Mae dulliau cynorthwyo teuluoedd yn blaenoriaethu cydberthnasau ac mae hyn yn dylanwadu ar sut y caiff gwasanaethau eu dylunio a'u darparu. Mae ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth fel ymyriadau ymweliadau cartref dwys wedi'u hymwreiddio mewn manylebau ar gyfer nifer o wasanaethau mamolaethau a'r blynyddoedd cynnar prif ffrwd allweddol. Mae'r ymyriadau hyn wedi'u targedu yn gywir ac yn cael eu gwerthuso ar gyfer eu heffaith. Caiff ffyddlondeb ar gyfer rhaglenni seiliedig ar dystiolaeth ei fonitro ac adroddir arno. Mae arferion sy'n canolbwyntio ar y teulu yn gyffredin yn yr holl brif wasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar. Caiff prosesau cyffredin ar gyfer atgyfeirio ac asesu eu defnyddio ar draws drothwyon cyson, ac mae ymarferwyr yn defnyddio iaith gyffredin i ddisgrifio sut y caiff anghenion eu nodi, eu hasesu a'u diwallu. Mae llwybrau integredig sy'n disgrifio sut y caiff teuluoedd agored i niwed eu nodi a'u cynorthwyo ar draws wahanol wasanaethau wedi eu cytuno ac yn cael eu defnyddio, ac yn cynnwys systemau cyffredin ar gyfer nodi angen. Mae gan deuluoedd sydd ei angen weithiwr allweddol cyson. Mae ymarferwyr ar draws gwasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar yn defnyddio data cyffredin i dargedu cymorth at grwpiau blaenoriaeth (gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig) ac yn defnyddio proses gydgysylltiedig ar gyfer monitro effaith i deuluoedd unigol.	☐	Mae cytundebau rhannu gwybodaeth strategol a gweithredol ar waith ac yn gweithio'n dda. Mae rhannu gwybodaeth am deuluoedd agored i niwed yn dechrau yn ystod beichiogrwydd ac yn parhau ar draws pwyntiau bywyd allweddol. Mae gwybodaeth i rieni a gofalwyr am feichiogrwydd a datblygiad plant cynnar yn hygyrch, yn gynrychioliadol ac yn cael ei chyfleu yn gyson i deuluoedd ar draws y gweithlu mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar. Mae gwasanaethau yn cydweithio i lunio ffyrdd arloesol o gyrraedd teuluoedd y nodir eu bod yn grwpiau blaenoriaeth, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig, teuluoedd difreintiedig a'r rhai nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.	☐
Aeddfed	Mae ansawdd a pherfformiad bron pob gwasanaeth plentyndod cynnar lleol yn dda neu'n rhagorol. Mae bron i bob menyw feichiog a phlentyn yn cael ei asesu ac yn cael archwiliadau gorfodol yn ogystal ag archwiliadau rheolaidd eraill a ddiffinnir yn lleol. Mae pob plentyn dyflwydd oed sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig ledled Cymru/ardaloedd Dechrau'n Deg naill ai'n mynychu meithrinfa o ansawdd uchel neu'n derbyn cymorth amgen priodol, fel mynediad at ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae portffolio cydlynol o ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth wedi'u hymwreiddio mewn gwasanaethau plentyndod cynnar. Caiff ymyriadau eu gwerthuso ac maent yn sicrhau canlyniadau da i blant. Caiff ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth sy'n perfformio'n dda eu blaenoriaethu a'u diogelu. Mae arferion sy'n canolbwyntio ar y teulu wedi'u hymwreiddio ym mhob gwasanaeth perthnasol. Defnyddir llwybrau integredig cynhwysfawr ar gyfer ystod lawn o anghenion. Diwygiwyd llwybrau i gymryd i ystyriaeth effaith, adborth defnyddwyr a thystiolaeth newydd ar yr hyn sy'n gweithio. Defnyddir systemau monitro integredig ar draws gwasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar i dargedu ymyriadau at deuluoedd â gwahanol anghenion. Mae gwasanaethau yn hyblyg i ymateb i alw gan ddefnyddio data byw.	☐	Mae rhannu gwybodaeth mater o drefn a phrydlon yn digwydd ar draws amrywiaeth o wasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar, ac fe'i defnyddir i hysbysu'r ddarpariaeth weithredol o wasanaethau. Mae system TG wedi'u dylunio i gefnogi dulliau amlasiantaeth ac i hwyluso rhannu gwybodaeth. Mae teuluoedd yn manteisio ar wybodaeth gyfredol a chywir am wasanaethau mewn amrywiaeth o ffyrdd, a cheir cymorth priodol i wneud hynny pan fo'i angen.	☐

GWERTHUSO

	9 Canlyniadau		10 Defnyddio a chynhyrchu tystiolaeth	
Lefel sylfaenol	Cydnabyddir bod angen fframwaith canlyniadau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar cydgysylltiedig i ddeall effaith yn well. Mae gwasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar yn aml yn canolbwyntio ar deuluoedd ond yn cynnwys nifer o wasanaethau yn rhyngweithio â theulu heb gysondeb.	✓	Cydnabyddir bod defnyddio tystiolaeth am famolaeth a datblygiad plant yn bwysig, ond ceir dealltwriaeth gyfyngedig o'r hyn sy'n dystiolaeth ddibynadwy. Mae rhai rhanddeiliaid lleol allweddol yn cydnabod bod gwerthuso lleol yn bwysig.	✓
Cynnydd cynnar	Mae fframwaith canlyniadau mamolaeth a'r blynyddoedd cyffredin yn cael ei ddatblygu. Mae rhai teuluoedd yn cael taith fwy didrafferth trwy wasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar o ganlyniad i bwyslais ar gymorth cydgysylltiedig.	☐	Mae rhai rhanddeiliaid lleol allweddol yn adolygu'r dystiolaeth ddiweddaraf ar famolaeth a datblygiad plant cynnar, ac yn ystyried yr hyn y mae hyn yn ei olygu i wasanaethau lleol. Ceir rhai enghreifftiau o werthuso gwasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar yn lleol ond nid i safonau neu feini prawf ansawdd cyson.	☐
Cynnydd sylweddol	Mae fframwaith canlyniadau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar ar waith ac wedi'i ddylunio yn seiliedig ar y blaenoriaethau yn y strategaeth mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar. Mae perfformiad yn erbyn canlyniadau a ddiffiniwyd yn lleol yn dechrau dangos arwyddion o welliant yn erbyn llinellau sylfaen. Caiff data o ddulliau mesur dilys a dibynadwy ar fesurau canlyniadau allweddol eu casglu a'u hadrodd fel mater o drefn. Yn gyffredinol, mae teuluoedd yn cael taith ddidrafferth trwy wasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar, ac yn cael cymorth prydlon a chyson. Mae gwasanaethau yn ymatebol i wahanol anghenion cymunedol, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig, fel anghenion tadau yn ogystal â mamau. Darperir gwasanaethau mewn lleoliadau cymunedol hygyrch.	☐	Mae arweinwyr lleol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ddefnyddwyr hyderus o dystiolaeth, sy'n gallu gwahaniaethu rhwng tystiolaeth ymchwil gredadwy a barn a fynegwyd. Mae dull cyson o werthuso effaith gwasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar yn nod cydnabyddedig, ac mae gwaith ar fframwaith gwerthuso i gyflawni hyn ar y gweill. Defnyddir canfyddiadau gwerthuso lleol i hysbysu penderfyniadau tactegol a gweithredol yn ogystal â phenderfyniadau strategaeth a chynllunio.	☐
Aeddfed	Mae canlyniadau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar allweddol wedi'u hymwreiddio mewn fframwaith partneriaeth ehangach o ganlyniadau a dangosyddion. Mae gan bartneriaid olwg eglur o ba rannau o'r system sy'n gweithio'n dda ac yn defnyddio hyn i hysbysu strategaeth a datblygiad gwasanaeth, ac yn cymryd camau i wella tanberfformiad. Mae mesurau canlyniadau yn dangos gwelliant cyson. Ymatebir i brofiad y nifer fach o deuluoedd nad ydynt yn cael taith esmwyth trwy'r holl wasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar, ac mae'n cymell gwelliannau i ddefnyddwyr eraill. Dim ond unwaith y mae'n rhaid i deuluoedd adrodd eu stori a chânt gynnig gwasanaethau yn bersonol iddynt. Mae niferoedd sy'n manteisio a phrofiad o wasanaethau ymhlith gwahanol grwpiau (fel teuluoedd difreintiedig, a'r rhai nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf) wedi'u cynnwys mewn gwybodaeth fonitro.	☐	Mae arweinwyr lleol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn manteisio ar dystiolaeth ddibynadwy fel mater o drefn i hysbysu defnydd o adnoddau a dyluniad gwasanaethau, a herio polisi â sail dystiolaeth wan. Defnyddir fframwaith gwerthuso cyffredin ar draws gwasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar sy'n cydnabod gwahanol safonau o dystiolaeth. Yn gyffredinol, mae gwerthusiadau lleol yn defnyddio mesurau a ddilyswyd ac mae rhai yn defnyddio grwpiau cymhariaeth. Mae'r dull gwerthuso cyson yn cefnogi arbrofi ac arloesi. Mae'r sail dystiolaeth leol yn tyfu ac yn hysbysu datblygiad gwasanaethau a strategaeth yn y dyfodol. Mae lleoedd eraill yn defnyddio'r dysgu i gefnogi eu penderfyniadau eu hunain am gynllunio a chomisiynu.	☐

Deall datblygiad plentyndod cynnar

Deallir yn aml bod datblygiad cynnar plant yn digwydd mewn pedwar maes sy'n gorgyffwrdd. Mae astudiaethau yn dangos yn gyson bod cymwyseddau cynnar yn y meysydd hyn yn flociau adeiladu ar gyfer cymwyseddau mwy cymhleth wrth i blant dyfu'n hŷn.

1 Datblygiad corfforol

Mae datblygiad corfforol yn cwmpasu iechyd corfforol plant, maetheg a datblygiad echddygol manwl a bras, ac yn gosod y sylfaen ar gyfer datblygiad cadarnhaol yn yr holl feysydd eraill. Mae llawer o nodweddion corfforol yn cael eu pennu'n enetig, ond mae iechyd ac aeddfediad plant hefyd yn cael eu llunio gan eu hamgylchedd.

Mae ymddygiadau rhoi gofal sy'n cynorthwyo datblygiad corfforol plant yn cynnwys gwneud yn siŵr eu bod yn ddiogel ac yn gynnes, rhoi bwyd maethlon iddynt a'u difyrru trwy chwarae egnïol a gweithgareddau corfforol ysgogiadol.

Dyn ystod y cyfnod cynenedigol, mae bydwragedd yn helpu i sicrhau bod babanod yn cael eu geni yn iach, trwy gyfarwyddyd i famau ar sut i gynnal deiet maethlon ar angen i osgoi sylweddau niweidiol. Ar ôl genedigaeth, mae ymwelwyr iechyd yn helpu i sicrhau bod babanod yn cadw'n iach trwy gynnig cyngor am fwydo ar y fron, deiet a cherrig milltir corfforol, a thrwy sicrhau bod babanod yn cael eu harchwiliadau iechyd, eu brechiadau ac yn cael gafael ar gymorth meddygol yn ôl yr angen. Mae gofal plant a darpariaeth cyn ysgol yn cynorthwyo datblygiad corfforol wrth i blant dyfu'n hŷn. Mae chwarae wedi'i drefnu yn helpu plant i ymarfer cydsymudiad echddygol bras, ac mae gweithgareddau crefft a chwarae blêr yn helpu datblygiad echddygol manwl plant.

2 Datblygiad gwybyddol

Mae datblygiad gwybyddol cynnar yn cynnwys gwybodaeth plant am briodweddau ffisegol gwrthrychau, gwerthfawrogiad o sut y mae pobl eraill yn meddwl ac yn teimlo, gwybodaeth am rifau a chaffael iaith. Caiff datblygiad gwybyddol plant ei bennu i gychwyn gan ansawdd yr amgylchedd cynenedigol a phrofiadau genedigaeth. Wrth i blant dyfu'n hŷn, mae ansawdd yr amgylchedd dysgu cartref yn gynyddol bwysig – o ran mynediad at lyfrau, teganau a gweithgareddau dysgu eraill, a hefyd sut y mae rhieni yn 'addysgu' eu plant trwy eu rhyngweithio beunyddiol. Mae astudiaethau yn dangos yn gyson bod incwm a lefel addysgol teulu yn dylanwadu ar allu rhieni i ddarparu amgylchedd dysgu cartref sy'n cyfoethogi.

Mae profiadau addysgol sy'n cyfoethogi yn cynorthwyo datblygiad gwybyddol plant o bob oed, er bod angen i ymyriadau sy'n mynd i'r afael â bylchau sy'n gysylltiedig ag incwm ddechrau yn gynnar, yn ystod blwyddyn gyntaf plentyn yn ddelfrydol. Dangoswyd yn gyson bod ymweliadau cartref a gynigir i deuluoedd incwm isel o enedigaeth tan eu bod yn ddwy oed yn lleihau bylchau dysgu sy'n seiliedig ar incwm ar yr adeg y bydd plant yn dechrau'r ysgol gynradd. O ddyflwydd oed, gall gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar sy'n cyfoethogi leihau bylchau sy'n gysylltiedig ag incwm mewn dysgu cynnar, yn enwedig pan gaiff ei gynnig ochr yn ochr â chymorth i rieni.

3 Datblygiad hunanreoleiddio

Mae hunanreoleiddio yn golygu gallu plant i fonitro a rheoli eu hymddygiad, eu sylw a'u hysgogiadau. Mae hyn yn helpu plant i ddatblygu perthynas gadarnhaol ag eraill a rheoli eu dysgu yn yr ysgol.

Mae anawsterau gydag ymddygiad ac ysgogiadau yn y blynyddoedd cynnar yn rhagflaenydd hysbys i broblemau ymddygiad yn yr ysgol gynradd a'r glasoed. Caiff sgiliau hunanreoleiddio eu cynorthwyo gan ffactorau a etifeddwyd gan gynnwys y rhai sy'n dylanwadu ar gaffaeliad iaith cynnar a rheoli sylw, a ffactorau amgylcheddol gan gynnwys ymateb rhieni i ymddygiad negyddol plentyn.

Mae astudiaethau yn dangos bod ymddygiadau ymosodol anufudd yn gyffredin ymhlith plant bach. Mae'r rhan fwyaf o blant yn tyfu allan o'r rhain, ond gallai rhai barhau o fod yn ddwy oed ymlaen. Yn yr achosion hyn, gall cymorth ychwanegol addysgu strategaethau ar gyfer rheoli ymddygiadau plant anodd i rieni, neu eu helpu i adnabod problemau sy'n seiliedig ar sylw sydd angen cymorth pellach. Mae hyn yn golygu y dylai fod gan ymwelwyr iechyd a darpariaethau cyn ysgol ddulliau da ar waith ar gyfer sicrhau y gall rhieni gael gafael ar raglenni rhianta seiliedig ar dystiolaeth pan allai rhieni a phlant elwa ohonynt.

4 Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol

Mae datblygiad cymdeithasol ac emosiynol cynnar yn cynnwys y gallu i greu perthynas o ymddiriedaeth â phobl, adnabod a mynegi emosiynau, dangos cydymdeimlad a theimlo'n hyderus wrth archwilio'r amgylchedd a dysgu pethau newydd. Mae rhai astudiaethau yn awgrymu y gallai datblygiad cymdeithasol ac emosiynol cynnar glustogi plant rhag iselder a chanlyniadau iechyd meddwl gwael pan fyddant yn hŷn. Mae'r rhai sy'n rhoi gofal yn cynorthwyo datblygiad cymdeithasol ac emosiynol trwy fod yn sensitif ac yn ymatebol i anghenion plentyn, a defnyddio trefnau rhagweladwy i gynyddu hyder plentyn yn ei amgylchedd.

Mae rhai rhieni yn cael trafferth yn deall sut i gynorthwyo datblygiad cymdeithasol ac emosiynol eu plant, yn enwedig pan fyddant dan straen neu'n ymdrin â heriau cymdeithasol ac emosiynol eu hunain. Gall rhieni agored i niwed elwa o gymorth ychwanegol, ac mae sgrinio ac asesiadau iechyd meddwl rheolaidd a ddarperir gan fydwragedd ac ymwelwyr iechyd trwy gydol y cyfnod amenedigol yn hollbwysig i sicrhau bod rhieni yn derbyn cymorth iechyd meddwl effeithiol. Mae seicotherapi rhiant-plentyn yn enghraifft o gymorth iechyd meddwl i rieni lle ceir tystiolaeth o wella canlyniadau i rieni a phlant o'i ddarparu i deuluoedd unigol am tua blwyddyn.